# papur priordy



## A dyrchafodd y rhai distadl

**(Luc 1:52)**

*Dewiswyd gan Catrin Haf Williams, Rhydargaeau.*
*Gweler y tu mewn yr esboniad am ei dewis*

**Rhifyn 307**
**PAPUR IONAWR 2018**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Creu. Dileu. Torri

**BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI I GYD.**



Rwy’n eistedd wrth fy nesg a’m cyfrifiadur wedi’i danio. Mae tudalen newydd ar y sgrîn o’m blaen, un newydd sbon. Fel yna’n union rydw i’n meddwl am flwyddyn newydd - fel tudalen lân heb lythrennau na geiriau, brawddegau na pharagraffau arni.

Ymhlith y gorchmynion rwy’n gwneud defnydd da ohonynt ar y rhaglen gyfrifiadurol o ddydd i ddydd, yw ‘Creu’, ‘Dileu’ a ‘Torri’

Wrth orchymyn y rhaglen i ‘Greu’ mae sgrîn newydd yn agor o’m blaen. Meddyliwch am y posibiliadau mewn sgrîn wag. Pa eiriau ddaw i’w llenwi? Faint o foddhad ddaw o’u llenwi? Ond gyda’r wefr, fe ddaw pryder hefyd. Ble ma dechrau? Sut mae dechrau?




Ai dyma’r gwir am bob dechrau newydd? Mae cyffro ac ofn yn gymysg â’i gilydd ar ddechrau blwyddyn newydd. Gwefr a chyffro’r posibiliadau, gyda chymaint i edrych ymlaen ato, ond pryderon hefyd. Ofnau dechrau blwyddyn. Ofn methu dechrau’n iawn. Ofn y siom a’r crwydro digyfeiriad. Ofn yr edrych yn ôl mewn cywilydd.

Mae dechrau’n bwysig. Mae’r dechrau gorau i 2018 yng nghwmni Duw, yr un sydd wedi ‘Creu’r’ dudalen lân hon  yn debyg i sgrîn wag i ni ei llenwi.  Ie, gweithred gyffrous iawn yw gorchymyn y cyfrifiadur i ‘greu’ tudalen newydd.

Ond sut olwg fydd ar sgrîn 2018 erbyn Rhagfyr nesaf?  Fe fydd y sgrîn yn sicr yn llawn patrymau a grewyd gennym ni.

Bydd rhyw bethau nad oedd gennym reolaeth drostynt. Fe’n gorfodwyd ni gan eraill a chan ddigwyddiadau i lunio patrymau na fyddem ni efallai wedi‘u dewis ein hunain. Ond ni’n hunain fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o’r patrymau ar sgrîn 2018.

Os ydym yn edifar wrth adolygu’r ddogfen orffenedig, prin y gallwn ni feio neb na dim, ond ni’n hunain, a does fawr ddim y medrwn ei wneud am ein camgymeriadau.

Dyna lle mae cyfrifiadur yn rhagori!  Medrwn orchymyn y cyfrifiadur i ‘Ddileu’ neu ‘Dorri’ pethau o’r sgrîn! Dau orchymyn hynod o handi!

Fe fyddai’r gallu i ‘Ddileu’ neu ‘Dorri’ ambell beth o sgrîn ein bywydau wrth adolygu blwyddyn yn ein hanes yn ddefnyddiol iawn. Ond ni fedrwn ddileu’n camgymeriadau. Serch hynny, cofiwn bob amser fod yr efengyl yn cynnig maddeuant amdanynt, a rhyddid oddi wrthynt.

Dyna’r union newyddion da y buom yn ei ddathlu adeg y Nadolig, sef bod Gwaredwr wedi’i eni i’r byd.  Trwy’r groes a thrwy ei atgyfodiad buddugoliaethus ar fore’r trydydd dydd, mae Crist yn ein rhyddhau ni o bob methiant, yn cynnig cyfle newydd, i ni ddechrau eto gyda sgrîn wag.



**CAMWN I MEWN I 2018 YN EI GWMNI.**

**Gweddïwn**

**Arglwydd, rho dy fendith ar y flwyddyn newydd hon.**

**Cymer ni yn dy law.**
**Yn enw Iesu Grist.**

**Amen**



# DRWS AGORED

**BORE IAU 8 Chwefror 2018 – FESTRI’R PRIORDY**

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***

***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

**Elen Marks…**



## GWASANAETH NADOLIG
## Y PRIORDY 2017
## *TYWYSOG TANGNEFEDD*

Ar brynhawn oer iawn, daeth nifer fawr i Wasanaeth Nadolig y Capel. Roedd y lle'n orlawn! Os oedd hi'n oer y tu allan, roedd yna naws a chroeso gwresog yn disgwyl y gynulleidfa'r tu mewn!

Cychwynnwyd y gwasanaeth ym mhulpud y Capel gyda phedwar o aelodau PIP, sef Ifan, Gareth, Steffan a Caspar. Croesawyd pawb gan weddi ddiffuant Steffan, yn ein hatgoffa am wir ystyr y Nadolig. Gofynnodd Steffan i bawb ymuno yn y garol gyntaf, sef '*O deuwch ffyddloniaid'*. Wedi'r garol daeth Caspar ymlaen i sôn am gyfrifiad Cesar Awgwstws ac am eni'r baban Iesu, tra bu Gareth yn sôn am yr angylion yn dod â'r newydd da i'r bugeiliad am eni'r Meseia. Daeth Ifan â'r rhan hon i ben gyda gweddi teimladwy am ddedwyddwch a llawenydd presenoldeb Duw a Christ yn ystod cyfnod y Nadolig.



Wrth i'r pedwar ifanc ymadael â'r pulpud, daeth tro'r Parti Bechgyn. Cafwyd perfformiad gwych fel arfer, o'r garol *Awn i Fethlem, bawb dan ganu.*

Tro PIP oedd hi wedyn i gyflwyno hanes Eisteddfod Penbedw 1917. Roedd hi'n bleser gweld yr ymdrech a roed i mewn i'r gwisgoedd.a'r gwallt! Elis, fel Ceidwad y Cleddyf, ddaeth ymlaen yn gyntaf i geisio gwerthu tocyn Eisteddfod i'r Newyddiadurwr, sef Iwan. Tra oedd hyn yn mynd ymlaen ar y llwyfan, roedd Parti Unsain Y Priordy, Caerfyrddin ar eu taith i'r Eisteddfod i gystadlu. Dyma bymtheg o ferched ifanc PIP (Siwan, Mia, Gwenllian J, Gwenan J, Betsan, Elain, Carina, Lisa, Lucy, Hanna, Catrin, Lleucu, Rhiannon, Sara, Heledd) yn dod i'r llwyfan, wedi taith hir mewn dau drên a thri bws! Rhoddwyd cyflwyniad gwych o "*Diolch i Ti"* gan y merched. Gan mai hanes Eisteddfod Penbedw 1917 oedd hwn, wrth gwrs roedd yn rhaid sôn am y Cadeirio. Dyma Carwyn yn dod i'r llwyfan fel yr Archdderwydd gan gyhoeddi gwaith a gyflwynwyd dan y ffugenw *Fleur de Ly*s, sef yr enillydd. Seiniwyd y trwmpedi er mwyn i'r

bardd amlygu'i hun.  Wedi tri galwad, rhedodd cyhoeddwr (Beti-Wyn!) i'r pulpud er mwyn rho  i neges i'r Archdderwydd fod yr enillydd wedi'i ladd wrth ryfela.  Rhoddwyd lliain du ar draws y gadair ac o hynny hyd heddiw cyfeirir at yr Eisteddfod hon fel "*Eisteddfod y Gadair Ddu*".  Canodd Catrin un pennill o *Troyte's Chant* ar y piano'n deimladwy iawn.  Yna daeth y merched ymlaen gan ganu'r pennill cyntaf ac arwain y gynulleidfa i ganu gweddill "*Heddwch ar ddaear lawr*".



Tro'r plant oedd hi erbyn hyn a daeth Jac a Gwion ymlaen, y ddau yn sownd mewn goleuadau bach! Ymlaen wedyn daeth Meg, Megan a Marged i geisio rhoi cymorth i'r bechgyn!  Roedd y tair wedi creu rhestr er mwyn sicrhau bod pob dim gyda nhw ar gyfer y Dolig, OND daeth i'r amlwg eu bod nhw wedi anghofio un peth! Cracyrs! Tra chwaraewyd cerddoriaeth ar y piano daeth Anest a Syfi ymlaen gyda chracyr ENFAWR!  Roedd yn rhaid i'r bechgyn ateb tri chwestiwn er mwyn hawlio'r cracyr! (Ciw  sawl jôc am gracyrs – gan gynnwys un am Sulwyn, eleni eto druan!) Ar ôl ateb y cwestiynau'n gywir, dyma roi'r cracyr ENFAWR iddynt. Gwnaeth Erin yn siŵr fod boliau pawb yn llawn hefyd, gyda phwdin Dolig blasus! Ffurfiodd y saith grŵp bach i gyd-adrodd darn hynod hwylus am y Nadolig! Gwnaethant jobyn arbennig o hyn!



O gefn y llwyfan, daeth Mair, sef Anna, a Joseff, Tomos Huw, i gerddoriaeth Ebol Bychan.  Roedd Gwraig Y Llety, Gwenan, eisoes ar y llwyfan yn cael napyn bach! Cnociodd Joseff ar ddrws y llety a daeth y Wraig i'r drws mewn ychydig ofn gan ei bod hi'n hwyr ac am fod dieithriaid wrth ei drws.  Cynigiodd  y Wraig lety iddynt am y noson yn y stabl.

Tro'r plantos lleiaf oedd hi nawr, a thra ymadawodd Mair, Joseff a Gwraig Y Llety â'r llwyfan, dyma'r bugeiliad (Gwydion, Ifan, Deio, Osian, Steffan, Gwern, Tristan a Cian) a'r angylion (Nel, Cadi, Myfi, Greta, Lliwen, Nansi, Ani, Alys, Luned ac Elliw) y 'Priordys Bach', yn dod i fyny.  Roeddent yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd! Canodd y criw bach "*Seren Fechan yn y nen"* ar dôn "*Twinkle, Twinkle Little Star"* ac yna "*Dyma ni'n mynd i Fethlehem".* Wrth iddynt adael y llwyfan, dyma Herod yn ymddangos, yn cael ei chwarae gan Tomos Axford. Galwodd yn uchel ar ei was, Tomos Ben, mewn anghrediniaeth fod yna frenin newydd wedi'i eni.  Gofynnodd i'r gwas alw'r dynion



doeth er mwyn dod o hyd i'r brenin newydd yma. Ymlaen daeth y tri gŵr doeth, Jona, Jac Davies a Harri gan siarad ymysg ei gilydd ar sut i ddod o hyd i'r brenin newydd. Gwelon nhw un seren ddisglair yn yr awyr a phenderfynwyd dilyn hon.

Wrth i'r tri gŵr doeth adael y llwyfan, daeth y Parti Merched ymlaen i ganu'r garol "*Unwn â'r llu nefolaidd gôr*" ar dôn "*Sawley".* Perfformiad gwych eleni eto gan y Merched hefyd! Wedi i'r Merched orffen canu, dyma'r bugeiliad Mawr (Noa, Iestyn, Caleb, Osian, Ethan, Gwern a Ioan) a'r angylion Mawr (Olwen, Mali Ann, Mali Soffia, Beca ac Efa) yn dod i'r llwyfan. Tra oedd y bugeiliad yn gwylio'u praidd, maent yn sylwi ar olau llachar uwchben – yr angylion yn dod â newyddion o enedigaeth brenin newydd. A dyma'r bugeiliad hefyd yn gwneud eu ffordd i Fethlehem. Ymunodd yr bugeiliad a'r angylion lleiaf â'r rhai mwyaf ar gyfer y rhan nesaf. Ar y dôn "*Mi welais Jac y Do"* canon nhw am yn ail - y bugeiliad yn gyntaf ac yna'r angylion. Cafodd y gynulleidfa gyfle arall i ymuno mewn carol, "*Draw yn ninas Dafydd Frenin" y tro hwn.* Tra oedd y gynulleidfa yn canu, daeth y cast i gyd i'r llwyfan, heblaw'r doethion. Roedd PIP erbyn hyn i fyny yn y pulpud. Gyda cherddoriaeth y piano yn tywys y doethion i mewn, aethant hwythau hefyd i'r llwyfan gan offrymu anrhegion i'r baban Iesu.



A chyda hynny, daeth Heledd a Sara i flaen y pulpud i ddatgan bod y Nadolig yn gyfle i gofio am yr heddwch a ddaeth i'r byd drwy enedigaeth Iesu. Fel y dywedodd Sara wrth gau'r gwasanaeth:
*"Gweddiwn am heddwch yn ein byd y Nadolig hwn, a thangnefedd yng nghalon pob person"*

Diolchodd Beti-Wyn i bawb a ymunodd â'r wasanaeth, ac i'r plant a'r bobl ifanc am eu gwaith rhagorol unwaith eto eleni. Diolchodd hefyd i'r sawl a roiodd o'u hamser i ddysgu'r plant a'r bobl ifanc. Rhoddwyd diolch arbennig i Jayne Woods am gydlynu'r holl wasanaeth.



Clowyd y prynhawn hyfryd hwn gyda'r garol *Clywch lu'r nef* wrth wneud y casgliad at waith yr Ysgol Sul.

Aeth pawb wedyn i'r Festri i gymdeithasu a mwynhau diod ysgafn a briwgacs gyda'n gilydd. Mae'n diolch i'r gwragedd am baratoi ar ein cyfer.

# GWASANAETH NADOLIG 2017



# BORE'R NADOLIG YN Y PRIORDY

***CREWYD*** naws hyfryd o'r dechrau'n deg i'r gwasanaeth undebol yn y Priordy ar fore'r Nadolig wrth i ni ymdawelu a gwrando ar sain hudolus y ffliwt yn canu *Tawel Nos*.



Braf oedd croesawu aelodau'r Ofalaeth a chyfeillion o bell ac agos i'r gwasanaeth wrth i'n Gweinidog oleuo Cannwyll Crist, Goleuni'r Byd, yng nghanol Torch yr Adfent, ar y bore arbennig hwn.

Cawsom ein harwain yn ystyrlon a graenus i ryfeddod  y Nadolig gan bump o ferched ifainc y Priordy, sef Lowri, Siwan, Lleucu, Catrin ac Elin. Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ.

Diolch hefyd am gael rhannu peth o lawenydd ac asbri'r plant wrth iddynt ddangos i ni rai o'r anrhegion a gawsant yn gynharach yn y bore neu yn oriau mân y bore yn wir!  A chydiodd ein Gweinidog yn yr ymadrodd **'Y Nadolig'**, gan gymryd gair yn dechrau gyda phob un o'r llythrennau i esbonio beth yw gwir ystyr yr Ŵyl.  Roedd y gair olaf un, sef Crist y **<u>G</u>waredwr** a gynigiwyd, gyda llaw, gan un o'r plant, yn rhyw grynhoi arwyddocâd y diwrnod yn effeithiol iawn - diwrnod o newyddion da a llawenydd mawr pan ddaeth Iesu, mab Duw, i'n byd a chynnig ei hunan yn Waredwr i'r holl genhedloedd.



Diolch am fore mor ysbrydoledig a chael bod yn rhan o wasanaeth a chynulleidfa sy'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn.  Bu'n ddechrau da i'n dathliadau ar ddiwrnod mor rhyfeddol.

***CLYWSOM*** ar ddiwedd y gwasanaeth hefyd fod Grŵp Bugeilio Teulu'r Tŷ Capel wedi cyflwyno anrheg Nadolig ar ein rhan i'n cymdogion newydd o Syria a'u bod hwythau'n ddiolchgar iawn i ninnau ac yn dymuno'n dda i ni dros yr Ŵyl.

**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**



## TRYDYDD SUL YR ADFENT
## YNG NGHANA A BANCYFELIN



Yn y bore bu oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog. Ar y dechrau'n deg cynheuwyd y drydedd gannwyll ar Dorch yr Adfent i arwyddo llawenydd.

Canolbwyntiodd ein Gweinidog yn ei neges ar arwyddocâd a phwysigrwydd yr enw Iesu, gan ddangos mor allweddol yw ei  dderbyn fel Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,Tad bythol a Thywysog heddychlon yn ein dyddiau cythryblus ni heddiw. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan y Dr Eirian Thomas (Bancyfelin) ac Alun Charles (Y Priordy). Roedd Mair Jones wrth yr organ.

Yn yr hwyr, daeth pawb at ei gilydd ger mynedfa'r Wenallt ym Mancyfelin i gydgerdded drwy'r pentref, gan aros bob yn hyn a hyn i wrando ar ddarnau o'r Beibl, i ganu carol neu ddwy ac i gyd-weddîo. Cafodd y daith ei hymestyn ychydig y tro hwn a  braf hefyd oedd cael y cyfle i oedi y tu allan i gartref Haydn Thomas, un o flaenoriaid ffyddlon Bancyfelin.  Yn cynorthwyo ar y daith bu Gwyneth Griffiths, Gwawr Waters, Moira Howells, Siôn Jones, Julie Saer a'n Gweinidog. Yn y capel wedyn cawsom ein harwain ymhellach ar ein taith i Fethlehem gan blant yr Ysgol Sul dan ofal Gwyneth Stephens a'r Dr Eirian Thomas.  Bu'r bobl ifainc  Katie Evans, Hannah Howells , Rachel Howells a Hanna Harvey, Emyr Waters, Ben Harvey ac Iestyn Thomas hefyd yn cymryd rhan a'r organydd oedd Angharad Richards. Ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben, cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a the parti haeddiannol i blant yr Ysgol Sul.



Yng Nghana a Bancyfelin, cawsom ninnau'r oedolion gyfle i gymdeithasu uwchben paned a briwgacs a diolchwyd ar ein rhan i'n Gweinidog ac i bawb a fu'n paratoi ar gyfer yr achlysuron yng Nghana gan Lyn Jones (Bancyfelin) ac ym Mancyfelin gan Sulwyn Thomas (Y Priordy - Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth).

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

## NAW LLITH A CHAROL



Cynhaliwyd gwasanaeth yr Ofalaeth ar bedwerydd Sul yr Adfent yng nghlydwch Festri'r Priordy. Roedd y seddau wedi'u had-drefnu'n ddau floc gyda'r rhesi'n wynebu'i gilydd. Ar y ford rhwng y blociau gosodwyd Torch yr Adfent. Goleuodd ein Gweinidog y bedwaredd gannwyll ar y Dorch i gofio am y Forwyn Mair, yr un a ddysgodd gan yr Archangel Gabriel, negesydd oddi wrth Dduw, ei bod hi'n mynd i roi genedigaeth wyrthiol i Iesu Grist, mab Duw.

Cafwyd gwasanaeth o garolau a darlleniadau ar batrwm Naw Llith a Charol. Cymerwyd rhan gan Catrin Heledd Jones, Gareth Gravell, Rhian Bowen, Glenys Thomas, Adrian Evans, Elinor Wyn Reynolds, Philip Jones, Nansi Hayes, Wyn Tegryn Evans, Steffan Jones, Joanne Richards, Jac Thomas a'n Gweinidog. Gwrandawyd hefyd ar ddatganiadau ar CD o *Suai'r Gwynt* gan Gôr Seiriol a *Hwn yw fy mhlentyn* i gan Gôr Canna. Y cyfeilydd oedd Heather Williams a Catrin Heledd oedd y cyhoeddwr.



Bu'r gwasanaeth hwn, fel y gweddill yn ystod Tymor Cristnogol yr Adfent, yn gymorth mawr i ni baratoi'n hunain yn bwrpasol ar gyfer dyfodiad Crist i'n byd ar Ddydd Nadolig. Diolch yn fawr iawn i'n Gweinidog am drefnu'r cyfan.

### SUL OLAF Y FLWYDDYN

Cynhaliwyd Cwrdd Gofalaeth olaf 2017 ym Mancyfelin dan ofal ein Gweinidog.

Yn ystod yr oedfa, cawsom fwrw cipolwg drwy gyfrwng Pwynt Pwer ar ddetholiad o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd gennym yn yr Ofalaeth yn ystod 2017.

Diolchwn i'n Gweinidog am baratoi'r detholiad hwn ac am yr amrywiol gyfleoedd a gawsom i foli Duw drwy wahanol gyfryngau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Edrychwn ymlaen yn awr at heriau'r flwyddyn newydd.



# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

## MARGARET JONES

**Heol San Pedr, Caerfyrddin**

**a**

## Gwilym a Myfanwy Jones

**Golygfa Deg, Abergwili**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## CYNGERDD DATHLU 40 PAPUR BRO CWLWM

*gyda*



**Caryl Parry Jones**
**Côr Llanpumsaint a'r Cylch**
**Côr Seingar**
**Band Jazz Sipsi Galoise**
**Côr Ysgol Bro Myrddin**
***ac eraill***

**Nos Wener 16 Mawrth 2018**
**Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. 7.30yh**

## YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI



**Dr Huw Michael.**
**Tŷ Hir, Llys Picton, Caerfyrddin, SA31 3DQ**
**☎01267 235221**
**e-bost: huwmichael@hotmail.com**
**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**BETH AM DROI AT WEFAN**
**COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?**

**colegyrannibynwyr.cymru**

# PLYGAIN 2017



***AR NOS SUL,*** 10 Rhagfyr, 2017 cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Heol Awst, Caerfyrddin. Mae'r noson hon yn rhan annatod o weithgarwch y Nadolig yn ein tref erbyn hyn. Da oedd gweld cynulleidfa deilwng yn bresennol a phrofi cynhesrwydd y capel a hithau'n ddigon oer a gaeafol y tu allan.

Estynnwyd gair o groeso i bawb ar ran Merched y Wawr gan Glenys Thomas cyn i Mared Owen osod naws priodol i'r gwasanaeth gyda'i datganiad hyfryd o'r hen garol Gymraeg *Ar fore Dydd Nadolig.*

Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol ar gân gan Gôr Tonic, Capel Heol Awst, Merched y Priordy, Capel Penuel, Meibion y Priordy, Capel y Tabernacl, Capel Babell Zion Newydd a Chôr Seingar ynghyd â cherdd gan yr Ysgol Farddol. Canwyd tair carol gan y gynulleidfa I gyfeiliant. John Evans wrth yr organ. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Gwir Barchedig Joanna Penberthy, Esgob Tyddewi.

Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Uned Cemotherapi, Adran Oncoleg, Ysbyty Glangwili sy'n cyflawni gwaith mor rhagorol

Bu'n wasanaeth bendithiol iawn a graen ar gyfraniad pob un a gymerodd ran. Yn ôl yr arbenigwyr, mae mwy a mwy o ddiddordeb ar hyd a lled Cymru yn y canu Plygain y dyddiau hyn. Diolch yn fawr i Ferched y Wawr am gynnal y traddodiad yn ein tref ni ac i bawb a gyfrannodd ym mhob rhyw fodd.

## CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

**Nos Fercher 7 Mawrth am 7 yn y Festri**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***

## CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID YR OFALAETH

**Nos Fercher 14 Mawrth am 7 yn y Festri**

# GWASANAETH NADOLIG
# CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

***Bore Gwener, 16 Rhagfyr 2016***



***MAE RHAI*** dywediadau gafaelgar y ffilm *Casablanca* gyda Humphrey Bogart ac Ingrid Bergman ac eraill a ryddhawyd 75 o flynyddoedd yn ôl i eleni yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn dal yn fyw ar leferydd gwlad hyd yn oed heddiw. Meddylier, er enghraifft, am '*Here's looking at you, kid'* neu '*Play it [again], Sam'*. Ond dyw hynny ddim i'w gymharu â geiriau bythol wyrdd hanes Geni Iesu sydd mor fyw a pherthnasol heddiw â dwy fil o flynyddoedd yn ôi – '*Canys ganwyd i chi heddiw Geidwad … Gogoniant yn y goruchaf i Dduw*… ac yn y blaen. Mae Stori'r Nadolig Cyntaf, Stori Geni Gwaredwr y Byd yn dal i atseinio heddiw a chynnig gobaith newydd i ddynolryw. Dyna beth oedd bwrdwn neges ein Gweinidog yn Oedfa Nadolig Cartref Plas-y-dderwen eleni

Roedd mwy nag arfer yn lolfa'r Cartref y tro hwn a'r trigolion a'r cyfeillion rhyngddynt yn cynrychioli sawl capel ac eglwys yn y dref a thu hwnt, gan gynnwys tri chapel ein Gofalaeth ni,



Canwyd carolau Cymraeg a Saesneg, a gwrandawyd ar ddarlleniadau a gweddïau perthnasol yn y ddwy iaith. Roedd Mai Jones wrth yr organ.

Roedd y lolfa'n edrych yn hardd iawn ac yn llawn o addurniadau'r Nadolig. Roedd hi hefyd yn Ddiwrnod Siwmperi Nadolig a sawl un wedi cofio hyn,- fel y gwelwch oddi wrth y llun!

***MAWR*** yw'n diolch unwaith eto i Gartref Plas-y-dderwen a Janet Williams, y cydgysylltydd gweithgar, am y croeso a gafwyd ac am y baned a'r briwgacs a fwynhawyd ar ddiwedd y gwasanaeth.

***Yn y llun yn eu siwmperi hardd: Betsan James, Nansi Hayes, Beti-Wyn a Henry Wilkins. Diolch i Janet Williams am y llun.***

# GWASANAETH NADOLIG 2017

















# TYSTYSGRIFAU NORA

Tra oeddwn yn ymweld ag aelodau hŷn Y Priordy cyn y Nadolig, treuliais orig hyfryd yng nghwmni Mrs Nora Hughes, yng Nghartref Preswyl Castell Tywi, Cwmffrwd. Roeddwn wedi galw i ddwyn cyfarchion yr eglwys iddi dros yr Ŵyl, ond, roedd gen i syrpreis bach arall iddi hefyd!



Bydd llawer ohonoch yn cofio Nora a'i diweddar briod, Tudor yn byw yn 'Carne', Erw Hir.  Symudodd Nora o 'Carne' yn dilyn marwolaeth Tudor yn 2005, a phrynwyd ei chartref maes o law gan ein Carys a Huw Morgans ni. Bu 'Carne' yn gartref cyntaf i Tomos, Ifan a Cadi, tan i'r teulu bach benderfynu symud rai wythnosau'n ôl ac ymgartrefu yn eu cartref newydd ar Heol Llangynnwr.

Wrth glirio 'Carne' ar gyfer y symud, daeth Carys a Huw o hyd i dystysgrifau yn y llofft a adawyd yno, yn ddiymwybod i Nora. Tystysgrifau teilyngdod am Adrodd – dwy yn yr Eisteddfed Genedlathol ac un yn Eisteddfod yr Urdd.  Trosglwyddodd Carys y tystysgrifau i mi, a chafodd Nora syrpreis hyfryd o gael y tystysgrifau'n ôl wedi'r holl flynyddoedd.

Dyma holi Nora am hanes ei llwyddiant yn yr Eisteddfodau.

**BW: Mae'n amlwg Nora eich bod yn hoff iawn o adrodd ers yn blentyn ifanc ym Mrynaman. Oeddech chi'n derbyn gwersi?**
**NH***:  Roeddwn yn derbyn gwersi adrodd gydag Elsie Mainwaring yn Ystalyfera. Roedd gan mam lais canu da, ac roedd hithau'n teithio o Frynamam (Uchaf) i Ystalyfera hefyd gan ei bod yn rhan o Gôr Clee. Roedd mam yn alto da, ond does dim llais canu gyda fi, adrodd oedd yn mynd â'm bryd i.*

**BW: Dwedwch wrthym am y tystysgrifau hardd yma, a'r fedal.**
**NH**: *Cyrhaeddais lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol bedair gwaith. Wn ni ddim ble mae'r bedwaredd dystysgrif!   Enillais deirgwaith:yn*

*Eisteddfod Genedlaethol Cymru Aberafan yn 1932, adrodd dan 12 oed - roeddwn yn 9 oed ar y pryd. Yna, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Blaenau Ffestiniog yn 1936, adrodd 11 i 14 oed, ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Machynlleth 1937, adrodd 12 i 15 oed. Does gen i ddim llawer o gof am Aberafan neu Flaenau Ffestiniog ond rwy'n cofio Eisteddfod Machynlleth yn dda. Roeddwn wedi clywed fy mod wedi cyrraedd y llwyfan, ac aeth mam â fi am wâc cyn y gystadleuaeth, a dweud wrthyf 'Tria adrodd yn olaf ar y llwyfan!' Olaf neu beidio, fe lwyddais i ennill!*

**BW*: Rydych wedi eich magu ym Mrynaman. Oeddech wedi* cael cyfle i gymryd rhan yn gyhoeddus yn y Capel? A beth am Eisteddfodau lleol?**
**NH:** *Roeddem yn aelodau yn Chapel Moreia, Brynaman, ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn gyhoeddus yn rheolaidd. Roedd Eisteddfod Capeli Brynaman mewn 'full swing' hefyd, a chystadlu brwd rhwng yr aelodau. Rwy'n cofio dwy fenyw ym Moreia a oedd yn treial maeddu'i gilydd yn canu bob blwyddyn! Roeddwn yn cystadlu hefyd gydag Aelwyd yr Urdd ym Mrynaman. Roedd mam a dad yn mynd â fi i bob man i gystadlu mewn eisteddfodau. Mae gen i atgofion hyfryd o'r fagwraeth a gefais ym Mrynaman. Rwy'n cofio gwthio Valerie James yn y pram drwy'r pentref!*

**BW: Rydych wedi byw mewn sawl lle, ond wedi treulio rhan helaethaf eich bywyd yma yng Nghaerfyrddin, ac wedi cael cyfle i barhau i adrodd ac actio?**
**NH**: *Do'n wir - ym ,harti cydadrodd Yvonne Francis a dramâu Norah Isaac. Roedd diddordeb gydag Elinor, ein merch, mewn adrodd hefyd ac enillodd hi ar lwyfan y Genedlaethol un flwyddyn.*

**BW: Wel, rhaid dweud, o ystyried eich bod yn eich nawdegau, dych chi ddim wedi altro dim ers i mi'ch 'nabod yn gyntaf Nora. Rydych yn edrych mor smart ag erioed, ac yn hapus iawn eich byd?**
**NH**: *Rwy'n gysurus iawn yma yng Nghastell Tywi, a bob amser yn falch o weld reulu a ffrindiau. Rwy'n hen fam-gu i un bachgen a phedair merch, ac wrth fy modd yn eu gweld yn tyfu. Mae Eluned Maddox yn ddigon caredig i ddanfon Papur Priordy ataf bob mis, er mwyn i mi gael cadw i fyny â newyddion y capel. Cofion cynnes iawn at bawb yn Y Priordy. Rwy'n meddwl amdanoch yn aml.*

**BW: Diolch Nora, mae wedi bod yn bleser bod yn eich cwmni.**

**heddi eto. Rwy mor falch eich bod wedi cael y tystysgrifau hyn yn ôl, mae nhw'n rhan bwysig iawn o hanes eich teulu, a phwy a ŵyr, falle gwelwn un o'ch gor-wyresau neu eich gor-wyr yn llefaru ar lwyfan y Genedlaethol ryw ddydd, yn union fel eu hen fam-gu! Pob bendith.**

**NH:** *Fe fydd Elinor yn falch iawn o'u cael. Diolch i Carys a Huw am eu dychwelyd nhw ataf i.*

## NOSON ARBENNIG



Yn ***Rhwydwaith*** mis Rhagfyr, buom yn sôn am CD newydd a thaith ddiweddar Ffion Wilkins, merch Henry a Bronwen Wilkins.

Yn ystod ei thaith cynhaliodd noson yn y *Dog and Piano* yma yng Nghaerfyrddin.

Yn y gynulleidfa roedd Meinir Lloyd a'I merch Mererid Llwyd O'Leary a chawsant noson arbennig yn gwrando ar Ffion.

Diolch iddynt hefyd am y llun o Ffion gyda'I rhieni.

# Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL


***Nos Lun 4 Rhagfyr 2017***



***PROFIAD*** amheuthun yw cael gwrando ar lenorion o fr'n trafod a darllen rhannau o'u gwaith ac yn taflu goleuni pellach arnynt. Dyna'r fraint a ddaeth i'n rhan yng nghyfarfod Cymdeithas Ddiwylliadol y Priordy i gloi 2017, gyda'r Dr Menna Elfyn yn westai arbennig. Yn rhan o'r gynulleidfa hefyd roedd rhai o aelodau Cymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl, Noddfa Foelcwan a Bethania Talog)) a chyfeillion eraill - un hyd yn oed o Efrog Newydd!

Fe'n gosodwyd yn y cywair priodol ar ddechrau Tymor yr Adfent drwy gydganu carol *Wele*'n *gwawrio ddydd i'w gofio* (i gyfeiliant Rhian Evans) a chlywed Eurwen Jones yn darllen adnodau pwrpasol o'r Ysgrythur.

Yn ei chyflwyniad cawsom ein hatgoffa gan ein Gweinidog o ddoniau Menna Elfyn y bardd, y dramodydd a'r cofiannydd. Mae'n un sydd wedi teithio ar draws y byd a llawer o'i gwaith wedi'i drosi i ieithoedd eraill. Bu'n Athro Barddoniaeth a Chyfarwyddwr Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant cyn ymddeol. Ond does dim arlliw o ymddeol a disgyn ar rwyfau arni mewn gwirionedd ac mae'n parhau i deithio, creu a chyhoeddi'n ddidor! Yn ferch i'r bardd bregethwr T Elfyn Jones, mae'r cyswllt a fu rhyngddi a'r Priordy drwy'i mam yng nghyfraith, y ddiweddar Jennie James (Heol Dŵr Fach) yn parhau gan ei bod hithau bellach yn un ohonom a'i merch y Dr Fflur Dafydd a'i phriod Iwan a'r plant yn addoli'n gyson gyda ni ar y Sul.




Dechreuodd Menna Elfyn drwy drafod ei bywgraffiad diweddar i'r bardd Eluned Phillips, sef *Optimist Absoliwt: Cofiant Eluned Phillips*.

Cyrhaeddodd y gyfrol hon restr fer Gwobr Llyfr Ffeithiol Greadigol y flwyddyn 2017. Yn hannu o Genarth, mae Eluned Phillips, yr unig ferch i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith (1967 a 1983), yn berson dadleuol iawn. Cododd amheuon a checru, er enghraifft, ynghylch gwreiddioldeb peth o'r gwaith a ddaeth â bri cenedlaethol iddi. Does ryfedd iddi ddweud '*Efallai y bydd rhywun ar ôl i fi fynd yn dweud y gwir amdana i'* ac mae Menna Elfyn yn ceisio dod i'r afael â hyn yn y Cofiant. Diddorol oedd deall sut y daeth o hyd i gyfoeth o ffynonellau ar gyfer y gyfrol y bydd fersiwn Saesneg ohoni'n ymddangos eleni. Gwelsom glip o gyfweliad diddorol a wnaed ag Eluned Phillips ar y cyfryngau amser yn ôl a darllenodd ein gwestai o unig gasgliad o gerddi Eluned Phillips. sef *Cerddi Glyn-y Mêl* (1985)

Gorffennodd Menna Elfyn drwy droi at ei chyfrol ddiweddaraf, sef *Bondo,* sy'n cynnwys *Aber-fan – Cerddi'r Datod*, yn seiliedig ar un o drychinebau diwydiannol gwaethaf Prydain ar 21 Hydref 1966. Mae'n argraffiad Cymraeg a Saesneg, gyda throsiadau Saesneg gan rai o brif feirdd Cymru. Cawsom flasu peth o'r gwaith a hawdd oedd synhwyro'r cyswllt dwys a pharhaus sydd rhwng Menna Elfyn a chymunedau glofaol Cymru wrth iddi gyflwyno rhai o gerddi Aber-fan a chrybwyll ambell ddatganiad erchyll a wnaed yn dilyn y drychineb




Sbardunodd y noson 'seiat' ddiddorol cyn i'n Gweinidog ddiolch i'r llenores am noson arbennig ac i ni fwynhau paned gyda'n gilydd.

***DYMA*** weld wedi mynd adre'r newyddion ar *BBC Cymru Fyw* fod archif Menna Elfyn wedi'i diogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol ar gyfer ymchwilwyr y dyfodol. Mae'r archif yn cynnwys llyfrau nodiadau, gohebiaeth, drafftiau o sgriptiau a ffeiliau'n ymwneud â chomisiynau a phrosiectau amrywiol, adolygiadau a nifer o weithdai ysgrifennu creadigol. A chan fod yr archif hon yn adlewyrchu nifer o ddigwyddiadau arwyddocaol ein cyfnod diweddar yng Nghymru, mae'n drysor yn wir. Diolch felly i Menna Elfan am y gymwynas hon hefyd.

# ‘Agor y Gair’

***Cyfres  Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher, 24, 31 Ionawr 7 a 14 Chwefror 2018**

**11.00 tan 12.00**

**Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin**

**Arweinwyr**
**Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James**

**Croeso cynnes iawn i bawb**

***Manylion pellach***
***☎01267 237696   ☎01267 236658***

## WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL 2018



**GWASANAETH DWYIEITHOG CYTÛN**
**Capel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst, Caerfyrddin**
**Dydd Sul 21 Ionawr 2018 – 5pm**
**Pregeth Gymraeg**
***gan***
**ALUN LENNY**

**Hefyd**
**Cyfarfodydd Bob Bore yn ystod yr Wythnos Weddi am Undod Crostnogol fel a ganlyn:**

**Dydd Llun 22 Ionawr– 10.30am**
**Capel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst**

**Dydd Mawrth – Dydd Gwener 23-26 Ionawr – 10.30am**
**Capel Wesle (ger Boots)**

**WESTERN MAIL -  95c   CARMARTHEN JOURNAL -  80c**

## Y TYST




**50c y rhifyn!!!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**

# LLOFNOD ELFED





Yn ein rhifyn diwethaf sonion ni am Siop Antîcs Caerfyrddin a'r casgliad o Feiblau a oedd ynddo. Wel, un a fu'n pori drwy'r casgliad oedd ein Gweinidog. Daeth o hyd i Feibl arbennig iawn yn cynnwys llofnod Elfed.  Tynnodd lun o'r tudalen dan sylw ac mae'r geiriau a'r llofnod yn ddigon clir i ni ddeall cyd-destun y rhodd.




Diolch i Beti-Wyn am y llun ac am dynnu'n sylw ni at hyn,

## *DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL*




## CLWB GWYLIAU CRISTNOGOL

**Bydd MIC yn cynnal clwb hwyl yn ystod gwyliau Hanner Tymor Chwefror**

**19-21 Chwefror 2018: 10.30-12.30**
**Festri'r Tabernacl, Caerfyrddin**
**Mynediad am ddim**

**Gemau Cystadlaethau Gwobrau Crefft. Hwyl a Sbri**

**Croeso cynnes i blant B2-6**
**Manylion pellach: Nigel Davies**
**☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net**
***Dyddiad Cau – 11 Chwefror***

## THEATR Y LYRIC



Theatr Genedlaethol Cymru
**Y TAD**
*gan*
Florian Zeller
*Trosiad Cymraeg gan Geraint Lovgreen*
Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018 – 13.00 / 19.30

**CYNNAL Y FFLAM**
*Caneuon o sioeau Cwmni Theatr Maldwyn yn cynnwys Y Mab Darogan, Heledd, Pum Diwrnod o Ryddid ac Ann!*
Nos Sadwrn 24 Mawrth 2018 - 19.30




Theatr y Lyric - ☎0845 226 3510

**CHWARAEON MIC**
**Dydd Sadwrn 20 Ionawr 2018**
**Canolfan Hamdden Caerfyrddin**
***Pêl-droed a Phêl-rwyd Cynradd ac Uwchradd***









PIP YN MWYNHAU TE NADOLIG YNG NGHAFFI PETHAU DA YN HEOL MANSEL

# Tudalen Ieuenctid@Priordy

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!




## Nadolig

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am wneud eich gwaith mor rhagorol yn y Gwasanaeth Nadolig eleni. Briliant!



Mae adroddiad llawn a lluniau mewn man arall yn y papur hwn. Diolch hefyd i’ch rhieni am bob cefnogaeth, a’r i’r tîm cyfan yn yr Ysgol Sul dan arweiniad Jayne am glymu’r cwbl ynghyd.  Gwych!

## Pêl-Rwyd a Phêl-droed MIC




Pob lwc i bawb fydd yn cystadlu ar ddydd Sadwrn, Ionawr 20fed yng nghanolfan Hamdden Caerfyrddin. Byddwn yno i’ch cefnogi! Diolch i Luned am drefnu’r cwbl.



## Parti a The

Cafwyd Parti Nadolig eithriadol o hwyliog a bywiog i blant oedran cynradd a diolch i Siôn Corn am alw heibio!
Llwyddwyd i fwyta 80 o gŵn poeth Beti-Wyn. Record!



Cafodd PIP De Nadolig hynod o flasus! Diolch i Alison a staff Caffi Pethau Da am eu croeso ac am y bwyd ffein!



## Cwrdd Plant a Phobl Ifanc

Dydd Sul, Ionawr 14 am 10. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni!

## Calendr

Ionawr 14 - Cwrdd Plant a Phobl ifanc
Ionawr 21 - Ysgol Sul
Ionawr 28 - Ysgol Sul a PIP
Chwefror 4 - Ysgol Sul

Hwyl am y tro,

**Beti-Wyn**

# *PARTI NADOLIG YR YSGOL SUL (CYNRADD)*


















**Papur Priordy'n cofio...**

## DANIEL SILVAN EVANS

**(1818 – 1903)**

***Offeiriad, Ysgholhaig, Geiriadurwr a Bardd***



Mae gennym delynegwyr o fri yma yn y Priordy! Ond o ble daeth y gair Cymraeg 'telyneg', tybed'? Wel, mae'n ymddangos mai Daniel Silvan Evans oedd y cyntaf i ddefnyddio'r gair yn ei *Telynegion ar Destunau Amrywiol* ym 1846. Efallai hefyd mai fe fathodd y term.


Fe'i ganed yn Llanarth, Ceredigion, **ddeucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ar 11 Ionawr 1818**. Roedd yn Annibynnwr ar y dechrau a bu yn Ysgol Neuadd-lwyd gyda'r gweinidog Annibynnol a'r athro Thomas Phillips. Aeth wedyn i Goleg yr Annibynwyr yn Aberhonddu ond am gyfnod byr yn unig. Mae'n debyg y gwnaethpwyd cyhuddiad yn ei erbyn a doedd dim modd ei brofi na'i wrthbrofi. Barnodd yntau a'i athrawon mai gwell fyddai iddo adael. Bu wedyn yn athro ysgol cyn ymuno â'r Eglwys Sefydledig a dod yn fyfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan lle daeth hefyd yn.ddarlithydd yn y Gymraeg. Cafodd ei benodi'n ddiacon ym 1848 ac yn offeiriad y flywyddyn wedyn a gwasanaethodd nifer o blwyfi yn y Gogledd. Diweddodd ei oes yn rheithor Llanwrin.

Daeth yn Athro cyntaf y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth ym 1875, swydd a ddaliodd nes iddo ddewis rhoi gorau i'r gwaith ym 1883. Un o'i fyfyrwyr disgleiriaf yn Aberystwyth, gyda llaw, oedd O M Edwards. Yn *Clych Atgof* dywed 'OM' mai Silvan Evans a ddylanwadodd fwyaf arno yn y Coleg.

Cyhoeddodd bedair cyfrol o gerddi a golygodd destunau lawer. Bu'n olygydd *Y Brython* ac *Archaelogica Cambrensis*. Cyfieithodd *Lyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Aneirin* a barddoniaeth *Llyfr Coch Hergest* ar gyfer *The Four Ancient Books of Wales* (1868) gan W F Skene.

Ei. brif gyfraniad, fodd bynnag, oedd fel geiriadurwr. Ei nod oedd ceisio llunio geiriadur yr iaith Gymraeg fel yr *Oxford English Dictionary*. Yn dilyn cyfnod maith o astudio ac ymchwilio

dechreuodd gyhoeddi'r gwaith mewn rhannau (1887, 1888, 1893, 1896 ac, ar ôl ei farw, 1906). Cyhoeddwyd y rhan olaf gan Walter Spurrell, Caerfyrddin  Ni lwyddodd Silvan Evans i  orffen y gwaith ac mae'r geiriadur yn diweddu gyda'r gair '*enyd'*. Ond enyd yn unig mewn gwirionedd sydd ei angen i sylweddoli maint ei ysgolheictod ac fel y gosododd seiliau cadarn mewn geiriaduriaeth ar gyfer y dyfodol.




Cafodd fywyd teuluol helbulus iawn. Collodd dri mab a thair merch cyn 1887 a lladdwyd ei wraig mewn damwain ym 1889. Bu yntau farw ar 12 Ebrill 1903 a'i gladdu ym mynwent Cemaes (Maldwyn).  Mae'n rhyfedd meddwl y bu person mor bwysig yn hanes dysg Gymraeg heb garreg ar ei fedd hyd ddiwrnod olaf Mis Mehefin 1956 – dros hanner can mlynedd ers ei farw!  Dadorchuddiwyd y garreg y pryd hwnnw a'i chyflwyno gan Esgob Bangor.

Mae dau emyn yn cael eu priodoli i Silvan Evans yn *Caneuon Ffydd*. Efallai mai fe gyfansoddodd *Duw mawr y nefoedd faith* (CFf 174) ond nid oes sicrwydd o hynny. Fe yn sicr yw awdur pennill cyntaf yr emyn *Cymer adain, fwyn Efengyl'* (*CFf 253*). Thomas Phillips, ei hen athro yn Ysgol Neuadd-lwyd, yw awdur yr ail bennill. Yn wreiddiol emyn un pennill o waith Phillips oedd hwn yn dwyn y teitl '*Cenhedlaeth yn etifeddiaeth i Grist'.* Aeth rhai o ddisgyblion Phillips, fel David Jones a Thomas Bevan, yn genhadon arloesol i Fadagasgar (a fydd yn destun Apêl Fawr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2018-19) ac mae naws genhadol i'r emyn. Yn ddiweddarach y cyplyswyd y ddau bennill gan roi pennill Evans yn gyntaf. Yn ôl y *Cymdymaith i Caneuon Ffydd* newidiwyd tipyn ar ei bennill*.* Yn benodol t*acluswyd ar y ffurfiau tafodieithol a genid yn wreiddiol':*

**Cymer adain, fwyn Efengyl,**
**hed dros wyneb daear lawr;**
**seinia d'utgorn fel y clywo**
**pawb o deulu'r golled fawr;**
**dwed am rinwedd balm Gilead**
**a'r Ffisigwr yno sydd;**
**golch yn wyn y rhai aflannaf,**
**dwg y caethion oll yn rhydd.**



## Dr Catrin Williams…



### A dyrchafodd y rhai distadl (Luc 2:52)

***DAW*** cyfle bob blwyddyn, adeg y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, i ddarllen a myfyrio ar hanesion y Geni yn y Testament Newydd. Ond ychydig iawn o sylw a roddir i'r ffaith mai dau efengylydd yn unig sydd wedi dewis cynnwys hanesion am enedigaeth Iesu yn eu naratif, sef Mathew a Luc. Chwiliwn yn ofer am dystiolaeth debyg yn Efengylau Marc a Ioan, oherwydd cychwyn gyda hanes Iesu'n cael ei fedyddio ar lan yr Iorddonen a wna Marc, tra bo Ioan yn neidio'n ddramatig o'r cyfnod cyn y creu, pan oedd y Gair yn bodoli gyda Duw, at ymddangosiad Iesu i Ioan Fedyddiwr a'r disgyblion cyntaf ar ddechrau ei weinidogaeth.

Mae'n bosibl, wrth gwrs, mai gweinidogaeth Iesu ac nid ei eni oedd man cychwyn pregethu'r Eglwys Fore, ond wrth i'r Cristnogion cynnar fyfyrio'n ddwys ar arwyddocâd Iesu a'i fywyd, aeth Mathew a Luc gam ymhellach tuag yn ôl a gofyn: sut y daeth y Meseia hwn i'r byd?

Ffrwyth myfyrdod hir ar berson a gwaith Iesu yw'r hanesion am y Geni, ac nid oes ryfedd bod Mathew a Luc wedi troi at storïau cyfarwydd – proffwydoliaethau o'r Hen Destament – er mwyn chwilio am ragfynegiad o ddyfodiad Iesu i'r byd. Craidd yr hanesion am y Geni - hanesion sydd wedi bod yn llywio ein haddoliad ers dechrau'r Adfent - yw bod hanes ymwneud Duw â'i bobl yn y gorffennol yn taflu goleuni ar y drefn newydd a ddaw yn sgîl yr Ymgnawdoliad. Mae Gair Duw ar waith trwy gydol yr Hen Destament, ymhlith pobl fel Abraham, Moses, a Dafydd, ond neges ddiysgog y Testament Newydd yw bod y Gair hwn bellach wedi dod yn gnawd yn y ffigur dynol, Iesu o Nasareth.

Mae fersiwn Luc o hanesion y Geni yn frith o gyfeiriadau at yr Hen Destament, yn enwedig yn y Caneuon hynny sydd i'w gweld yn Efengyl Luc yn unig, sef Cân Mair (neu'r Magnificat fel y caiff ei hadnabod mewn gwasanaethau eglwysig), yna'r Benedictus, neu Broffwydoliaeth Sechareias, tad Ioan Fedyddiwr, ac yna'r Nunc Dimittis, datganiad Simeon pan fo rhieni Iesu yn ei gyflwyno yn y Deml yn fuan ar ôl ei eni.

Er mwyn mynegi'r parhad di-dor rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, portreadir stori Mair gan Luc yng ngoleuni nifer o hanesion beiblaidd

poblogaidd am Dduw yn ymddangos i wraig ac yna'n rhagfynegi genedigaeth plentyn iddi. Mae'r wraig honno'n aml yn ddiffrwyth ac yn ddi-blant. Dyna i chi'r hanes am Sara oedrannus yn beichiogi ac yn rhoi genedigaeth i Isaac, ac yna Rachel sy'n destun gwawd ei chymdoges am ei bod hithau'n ddi-blant. A'r thema sy'n nodweddu'r holl hanesion hyn yw mai trwy ymyrraeth Duw y caiff y plant yma eu geni, am mai Duw yn unig all greu bywyd mewn croth diffrwyth; ef yn unig all greu bywyd allan o ddim.



Fel Mathew a Luc, egyr llyfr cyntaf Samuel â hanes geni plentyn. Clywn am Hanna yn dod i'r Deml ac, o achos ei chystudd, yn gweddïo ar i Dduw roi plentyn iddi: '*O Arglwydd y Lluoedd, os cymeri sylw o gystudd dy lawforwyn a pheidio â'm hanwybyddu, ond cofio amdanf a rhoi i mi epil, yna rhoddaf ef i'r Arglwydd am ei oes'*. Ar ôl iddi feichiogi mae'n geni mab o'r enw Samuel. Dyma Hanna, fel ei chwiorydd Iddewig Sara a Rachel o'i blaen, yn dod i weld bod Duw yn torri ar draws ei thywyllwch. Rhodd gan Dduw yw ei phlentyn, ac mae ei fywyd i'w gysegru'n llwyr i Dduw. Gyda llif o lawenydd, fel hyn mae Hanna'n gweddio:

Dyrchafwyd fy mhen yn yr Arglwydd.
Codaf fy llais yn erbyn fy ngelynion,
Oherwydd 'rwy'n llawenhau yn dy iachawdwriaeth…
Dryllir bwâu y cedyrn,
Ond gwregysir y gwan â nerth.
Bydd y porthiannus yn gweithio am eu bara,
Ond y newynog yn gorffwyso bellach.
Planta'r ddi-blant seithwaith,
Ond dihoeni a wna'r aml ei phlant….
Yr Arglwydd sy'n tlodi ac yn cyfoethogi,
Yn darostwng a hefyd yn dyrchafu.
Y mae'n codi'r gwan o'r llwch
Ac yn dyrchafu'r anghenus o'r domen,
I'w osod i eistedd gyda phendefigion
Ac i etifeddu cadair anrhydedd…' (I Samuel 2:1-10).

Mae'r tebygrwydd rhwng Cân Hanna a Chân Mair, y Magnificat, ar ddechrau Efengyl Luc yn drawiadol. Fel Hanna o'i blaen, llawforwyn wedi'i gorthrymu yw Mair, un yn trigo yn y cysgodion. Ond yna fe wêl yr angel Gabriel yn sefyll o'i blaen ac yn cyhoeddi ei bod hi'n mynd i esgor ar fab, un a gaiff ei alw'n Fab y Goruchaf, Mab Duw. O ganlyniad i neges syfrdanol Gabriel mae Mair, fel Hanna gynt, yn gweld ei thywyllwch yn troi yn oleuni mawr, ac mae hithau'n mynegi ei llawenydd mewn cân o fawl i Dduw.

Y mae fy enaid yn mawrygu yr Arglwydd,
A gorfoleddodd fy ysbryd yn Nuw, fy ngwaredwr,
Am iddo ystyried distadledd ei lawforwyn.
Oherwydd wele, o hyn allan fe'm gelwir yn wynfydedig gan yr holl genedlaethau,
Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau mawr i mi,
A sanctaidd yw ei enw ef;
Y mae ei drugaredd o genhedlaeth i genhedlaeth
I'r rhai sydd yn ei ofni ef.
Gwnaeth rymuster â'i fraich,
Gwasgarodd ddynion balch eu calon;
Tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau,
A dyrchafodd y rhai distadl;
Llwythodd y newynog â rhoddion,
Ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw.
Cynorthwyodd ef Israel ei was,
Gan ddwyn i'w gof ei drugaredd –
Fel y llefarodd wrth ein tadau –
Ei drugaredd wrth Abraham a'i had yn dragywydd' (Luc 1:46-55)

Nid damwain, wrth gwrs, yw bod cynnwys y ddwy salm hon o fawl mor debyg i'w gilydd, oherwydd mae Luc wedi benthyg rhai llinellau o Gân Hanna er mwyn dangos bod yr iachawdwriaeth sy'n dod ym mherson Iesu yn gyflawniad o hen, hen addewid. A'r Gân hon sy'n gwneud Mair ar ddechrau'r Efengyl yn ddolen gyswllt bendant rhwng yr Hen Israel a'r Israel newydd, ac yn cychwyn storïau'r Geni gyda chân o obaith llachar.

Llawenha Mair a Hanna o glywed y newyddion da am eu meibion, a'r ddwy fel ei gilydd yn datgan mawredd Duw a'r ffaith iddo ddangos ffafr tuag atynt. Ac y mae'r newid syfrdanol yn eu cyflwr, a'r wyrth bersonol yn achos y naill ferch a'r llall, yn rhoi achos iddynt gael gweledigaeth o'r modd chwyldroadol y mae Duw ar waith ymhlith ei bobl. Yn achos y ddwy, fe dry eu profiad eu hunain o Dduw yn ddrych o'i berthynas â'i bobl: nid ateb gofynion personol Hanna a Mair yn unig a wna Duw, ond ymateb i anghenion yr holl ddynolryw. Mae dyfodiad Iesu i'r byd yn ddigwyddiad sy'n cofleidio pawb ac yn iachawdwriaeth i bawb. A thrwy gyfrwng ei chân, daw Mair i'r amlwg fel y cyntaf i gyhoeddi neges yr Efengyl, hyd yn oed cyn i'w mab gael ei eni.



Thema fawr Caneuon y Geni yn Efengyl Luc, ac yn enwedig Cân Mair, yw bod Duw o blaid y gwan a'r tlawd, ac mai mewn pobl ddistadl fel Mair, Sechareias a Simeon y caiff Duw ei ddatguddio fel un o

blaid pobl yr ymylon. Mae pobl gyfoethog, meddai'r Gân, yn aml yn eu twyllo'u hunain eu bod yn gwbl hunan-gynhaliol ac nad oes angen Duw a'i gymorth arnynt. Ond neges fawr Efengyl Luc yw mai'r tlodion, y rhai heb adnoddau a meddiannau, sydd yn adnabod Duw fel y mae mewn gwirionedd; dyma'r rhai sydd yn rhoi eu dibyniaeth lwyr yn Nuw. Mae gwagle ymhob unigolyn, ac yn ôl Iesu mae pobl un ai yn llenwi'r gwagle hwnnw â meddiannau'r byd hwn neu'n ei lenwi â Duw ei hun. Dyma'r Duw, medd Luc, sy'n newid trefn cymdeithas drwy ddarostwng y rhai dyrchafedig a dyrchafu'r rhai darostyngedig - yn troi popeth wyneb i waered.

Pa ryfedd, felly, fod penodau agoriadol Efengyl Luc yn llawn o gymeriadau tlawd a darostyngedig – Mair a Joseff, Simeon ac Anna, hyd yn oed bugeiliaid ar lethrau bryniau Bethlehem (rhaid troi at Mathew am hanes y tri gŵr doeth). Dyma'r rhai y mae Duw yn gweld eu gwendid ac yn eu hachub o'u cyflwr truenus. Ac i'r rhain y ganwyd Iesu, mewn stabl oedd yn eiddo rhywun arall; fe'i claddwyd yn ogystal mewn bedd oedd yn perthyn i rywun arall. Ond fe bwysleisia Luc o'r cychwyn cyntaf mai trwy Iesu y daw iachadwriaeth i'r byd, gan alluogi pobl y cysgodion i droi'n blant y goleuni. Boed hwy'n ddiffrwyth fel Hanna ac Elisabeth, neu'n ddi-nod fel Mair, i rai fel hyn y mae Duw yn cynnig bywyd newydd – ac yn creu allan o ddim.

***GYDA*** ninnau'n awr yn cychwyn blwyddyn newydd - a'r Nadolig eisoes yn graddol droi'n atgof – gelwir arnom i barhau i fyfyrio ar enedigaeth Iesu a llawenhau yn ei harwyddocâd. Yn nhymor coffau'r Adfent a'r Nadolig a thymor gobeithion ac addunedau'r Flwyddyn Newydd, neges syfrdanol y Testament Newydd yw mai o gymdeithas y cysgodion, y tlawd a'r gostyngedig, y daw gwawrddydd cymdeithas newydd - a bod yr hyn a ymddengys yn farw, neu'n perthyn i'r gorffennol, mewn gwirionedd yn arwydd o fywyd newydd.

**GŴYL GRISTNOGOL LLANW**
**2-5 Ebrill 2018**
**Canolfan y Dywysoges Gwenllian, Cydweli**

*Yr Ŵyl yn ymweld â Sir Gâr am y tro cyntaf yn ei hanes. Wythnos lawn i bawb o bob oed gyda threfniadau arbennig i blant.*

Gwybodaeth bellach - Nigel Davies
Swyddog Plant ac Ieuenctid MIC
☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net

# HWYL DROS YR ŴYL!

## CWIS Y SAITH RHYFEDDOD – O'R AWYR!

*Gweler Rhifyn Rhagfyr.*
*Tybed faint gawsoch chi'n gywir?*

***Atebion***

| | |
|---|---|
| *1* | Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| *2* | Castell Caernarfon |
| *3* | Canolfan y Mileniwm, Caerdydd |
| *4* | Pentref Portmeirion |
| *5* | Eglwys Gadeiriol Tyddewi |
| *6* | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne |
| *7* | Pont Menai |

*Diolch i Gareth Gravell am y gwaith paratoi*

## COLEG Y BALA

Penwythnos Souled Out
26-28 Ionawr 2018
15-19 0ed

Penwythos Cwrs Ieuenctid
16-18 Chwefror 2018
Blynyddoedd 7-11

Bws am ddim
Manylion pellach: Nigel Davies
☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net

**AR Y WE: www. priordy.org** *(yn cynnwys Papur Priordy)*

## Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
*yn cyflwyno...*

# NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

### Y GYMDEITHAS



Yng Nghlwb Golff Caernarfon cawsom ein cinio Dolig eleni yng nghwmni 'r digrifwr Tudur Owen. Bwyd da ac adloniant rhagorol

### CYMORTH CRISTNOGOL

Wedi oedfa bore Sul 17 Rhagfyr cawsom ein cinio bara a chaws gyda'r arian  yn mynd i Apêl Nadolig CC

### SEREN

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd cafwyd cyflwyniad y plant a'r ieuenctid ar fore Sul -  24 ain. Paratowyd y sgript gan Mererid a chafwyd cyflwyniad a wnaeth i bawb feddwl am yr hyn sy'n bwysig i'w  gofio adeg y Nadolig



## Agor y Llyfr
## Cyflwyno Stori'r Nadolig yn Ysgol y Dderwen



## Cyflwyno Teganau i Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr



**Nansi Hayes…**



## IONAWR

**Wyt Ionawr yn oer,**
**A'th farrug yn wyn;**
**A pha beth a wnaethost**
**I ddŵr y llyn?**
**Mae iâr fach yr hesg**
**Yn cadw'n ei thŷ,**
**Heb le i fordwyo**
**Na throchi'i phlu.**

Mae llawer iawn ohonoch sy o'r un genhedlaeth â mi'n gyfarwydd â'r pennill hyfryd yma sydd i'w weld yn adran *Telynegion y Misoedd* yng nghyfrol *Telynegion Maes a Môr* gan **Eifion Wyn**, ac wedi'i ddysgu ar gof mae'n siŵr.



Ond beth sy wedi digwydd i'r gaeafau oer, rhewllyd, ryn ni'n eu cofio fel plant?

Mae'r ateb yn ddigon syml medd y gwybodusion, sef Cynhesu Byd-eang, er bod yna rai efallai, ac un nad anadnabyddus, yn gwrthod credu hynny. Mae'n amlwg nad yw'n gwylio rhaglen David Attenborough, *The Blue Planet*, neu fe fyddai'n gwybod am y dinistr sy'n digwydd i fyd Natur, i fywyd gwyllt a rhai adar prin trwy lygredd yn yr awyr, a hyd yn oed o dan y moroedd, megis i'r riffau cwrel.





Yr hyn sydd i'w sylwi fwya' yn fy nhyb i, yw nad oes tymhorau pendant i'w cael mwyach - Gwanwyn, Haf, Hydref, Gaeaf, dim ond llawer iawn o dywydd gwlyb. Roedd yna amser pan fyddai dillad Gaeaf yn cael eu rhoi i gadw yn y Gwanwyn, a'r rhai Haf yn dod mas. Mae plant heddiw yn colli allan ar yr hwyl a gawsem ni fel plant

wrth daflu peli eira, sglefrio ac ati - ond dim hwyl oedd eira mawr 1947 ychwaith. Cofiaf yn dda orfod brwydro yn erbyn storm eira wrth gerdded at y trên oedd yn ein cludo ni'n ôl adre i Henllan o **Ysgol Ramadeg Llandysul**. A dyna ni wedyn, wedi'n caethiwo gan luwchfeydd uchel am amser hir.



Doedd dim gobaith i bentrefi fel Coedybryn gael bwyd, a dyna fechgyn ifanc ein pentref ni'n cerdded dros y cloddiau yn cario bagiau o fara iddynt.



Carcharorion rhyfel o'r Eidal wedyn,oedd yng Ngwersyll Henllan, yn rhofio i geisio gwneud llwybr drwy'r lluwchfeydd yn y pentref.

Hwyrach nad oes angen hiraethu am y cyfnod yna'n ormodol, dim ond cofio am yr amserau da, sglefrio ar fanc ar oleddf yn yr ysgol wedi i'r bechyn hynaf daflu dŵr drosto, ac os oedd llyn Benice (Pencnwcau), fferm drws nesa' i'r Ysgol wedi rhewi, wel dyna oedd pinacl y gaea' i ni.




'Doedd dim angen "skates," oherwydd clocsiau oedd gan y rhan fwyaf o'r plant, yn enwedig y bechgyn.

Doedd dim sôn am "Iechyd a Diogelwch" pryd hynny, - Mistir oedd hynny i ni, fe fyddai'n profi trwch y rhew ac yn penderfynu a oedd hi'n ddiogel i ni'r plant fynd arno.



Felly, dilyn yn ôl troed Mistir oedd y peth diogelaf i'w wneud, ac mae 'na wers i ninnau fan yma, mi gredaf, Rhoi'n troed i sangu ble cerddodd y Meistr Mawr ei hun fyddai orau i ninnau i'w wneud hefyd.



# DRAMA NADOLIG
# Y DE A’R GOGLEDD



## 1

Aeth Joseff a Mair
draw dros fryn a phant
mynd bell i ffwrdd,
*nage ddim, mynd bell bant.*

Pa mor faith yw’r daith
draw i Fethlehem?
Does ganddyn nhw’m syniad…
*Dim syniad?  Dim clem.*

Pan welwyd y seren
uwchlaw y fro
aeth hi’n dipyn o helbul -
*a’th hi’n bach o drafô.*

*Gwelodd Herod y doethion*
*yn dod lawr y trac,*
ac ew roedd o’n flin!
*Nage ddim … o’dd e’n grac.*

‘Ewch allan!’ gwaeddodd Herod,
yn ddu ac yn las,
‘Ewch allan o’r palas …!’
*Nage ddim – cerwch mas!*

Dywedodd y Doethion:
‘Bydd well i ni ffoi!’
Dywedodd y Doethion:
*‘Mas o ma glou!’*

A’r bugeiliaid oedd yn gwylio
eu praidd dan y sêr,
a phob un yn oer  …
*nage ddim – o’n nhw’n wêr.*

Roedd y bugeiliaid yn oer,
heb fenyg na het,
yn pwyso ar y giât …
*nage ddim - ar yr iet.*

## 2

A’r bugeiliaid i gyd
yn fud yn y fan
yn edrych i fyny...
*nage ddim, drychyd lan.*

Roedd Mair druan, wedi llwyr ymlâdd,
*Ymlâdd?!! Ife iaith y Gogs yw iaith y twps?*
Roedd Mair wedi ymlâdd,
*nage ddim, blino’n shwps.*

Doedd dim lle yn y llety,
dim gwely na llofft,
a’r lletywr yn brysur …
*yn fishi – paid bo’n sofft.*

Meddai, “‘Sgen i ’mond stabal
a gwair ar y llawr,
mi gewch hwnnw rwan…”
*Allwch chi ga’l e nawr.*

Ac meddai Joseff wrth Mair:
‘Bydd o’n iawn, dydio’m otsh,
’mond bach o straffîg …’
*Nage ddim – bach o botsh.*

Ac yng nghwmni’r gwartheg …
nage gwartheg – da ….
Ai digon yw digon?
*Ie, well ’u gadel nhw fa’n na …*

Ac wedyn y parti
ar ôl blino’n rhacs
diod a theisennau...
*nage ddim, ...tovali a chacs.*

**3**

Wedyn cael pentwr
brechdanau, mins pei,
a mwynhau bid siŵr,
*nage ddim ... joio  glei.*

*Beth allwn ni ’neud?*
*So fe’n dod o’r de …*
Dwi’n hogyn o Fangor
*Pwr dab ag e …*

*Ond mewn difri calon,*
*ta beth yw ein hiaith,*
*yr un ydyw’r seren*
*sy’n arwain y daith …*

**4**

A’r un ydyw’r baban
ym Methlehem Dre
i holl bobol Cymru,
y Gogledd a’r De.

*A’r un ydyw Iesu,*
*waeth ble ry’n ni’n byw,*
*’run geni, ’run neges:*
*mai Cariad yw Duw.*



*Y gerdd a gyfansoddwyd gan Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones I’w chyflwyno ar ran Yr ysgol Farddol yng Ngwasanaeth Plygain Merched y Wawr a gynhaliwyd yn Heol Awst*


## CRISTION

Cyhoeddir pob deufis gan bwyllgor aml enwad o eglwysi Anghydffurfiol ac Anglicanaidd. Mae’n cynnwys erthyglau ar destunau. Cristnogol yng Nghymru, eitemau newyddion, adolygiadau o lyfray, llythyron a chystadlaethau




Pris: £1.50  Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas

## BLYCHAU YN Y CYNTEDD


**COFIWCH AM Y BLWCH  STAMPIAU A’R BLWCH CETRYS A’R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

# NADOLIG - Y STORI'N DENU!

**Cynhaliwyd Nadolig – Y Stori yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst, Caerfyrddin rhwng 11-16 Rhagfyr 2017.**

**Daeth niferoedd da i'r cyflwyniadau Cymraeg a Saesneg, yn cynnwys plant o wahanol ysgolion y dref a'r cylch, ac oedolion, fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Disgyblion yn mynychu cyflwyniadau Saesneg | 576 |
| Eraill yn mynychu cyflwyniadau Saesneg | 164 |
| Disgyblion yn mynychu cyflwyniadau Cymraeg | 811 |
| Eraill yn mynychu cyflwyniadau Cymraeg | 085 |
| Cyfanrif | 1616 |

**Diolch yn fawr iawn i Cytûn unwaith eto am drefnu'r digwyddiad hwn sy'n gyfraniad mor bwysig i weithgarwch ein tref adeg y Nadolig.**

***Llythyr a dderbyniodd y Parchedig Beti-Wyn yn ddiweddar oddi wrth Y Cynghorydd Mair Stephens. Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Gâr***

***Annwyl Beti-Wyn***

***Apêl Teganau Cyngor Sir Gâr***

***Diolch i chi a phawb arall yng Nghapeli Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin sydd wedi rhoi at yr Apêl Teganau.***

***Mae'n dda gwybod, gyda chymorth pobl fel chi, y gallwn ni eto sicrhau nad yw plant a phobl ifainc y sir yn cael eu hanghofio dros yr Ŵyl.***

***Unwaith eto, diolch i chi i gyd.***

***Mair Stephens***

# ROTA DARLLENWYR BORE SUL 2018

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Elis Jones | Gorffennaf | 1 | Luned Thomas |
| | 14 | | | 8 | |
| | 21 | Catrin H Jones | | 15 | Sulwyn Thomas |
| | 28 | Carys Morgans | | 22 | Eirlys Jones |
| | | | | 29 | Glenys Thomas |
| Chwefror | 4 | Dr H Michael | Awst | 5 | |
| | 11 | Gill Owens | | 12 | |
| | 18 | E W Reynolds | | 19 | |
| | 25 | | | 26 | |
| Mawrth | 4 | Elen Marks | Medi | 2 | |
| | 11 | Jayne Woods | | 9 | Mwynwen Jones |
| | 18 | Peter H Griffiths | | 16 | Alwen Owen |
| | 25 | | | 23 | M Llwyd O'Leary |
| | | | | 30 | |
| Ebrill | 1 | Chris Lloyd | Hydref | 7 | |
| | 8 | Miriam Wyrwoll | | 14 | Meinir Jones |
| | 15 | Mari Jenkins | | 21 | Lleucu Edwards |
| | 22 | | | 28 | W Tegryn Evans |
| | 29 | Dr Ll Williams | | | |
| Mai | 6 | Dr M Jones | Tachwedd | 4 | |
| | 13 | Tim Hayes | | 11 | Llinos Jones |
| | 20 | | | 18 | June Thomas |
| | 27 | Alison Parsons | | 25 | Nansi Hayes |
| Mehefin | 3 | Delyth G Davies | Rhagfyr | 2 | Heledd Tomos |
| | 10 | | | 9 | |
| | 17 | Adrian Evans | | 16 | Alun Charles |
| | 24 | | | 23 | Philip Jones |
| | | | | 30 | |

# GWASANAETH NADOLIG 2017



















**Y DDIWEDDAR WINNIE DAVIES**

Collodd Y Priordy un o'i haelodau hynaf yn ystod mis Rhagfyr, sef y ddiweddar Winnie Davies a fu farw yn dawel yn Ysbyty Glangwili ar 6 Rhagfyr .

Cofiwn am Mrs Davies fel gwraig gyfeillgar, garedig a doeth ei geiriau, yn gwmnïwr da a gwraig a hoffai rannu o stôr ei hatgofion.

Yn enedigol o Felin-foel, priododd â Glan Davies o Lannon, a bu'r teulu yn byw yn Llanbed am gyfnod ac yn cadw siop fara. Ar ôl colli'i phriod yn ddisymwth 31 o flynyddoedd yn ôl, symudodd yn ôl i'r dre a chawsom ei chwmni yn Y Priordy.

Yn ogystal â bod yn aelod ffyddlon, byddai Mrs Davies hefyd yn cyfrannu pytiau i *Bapur Priordy* ac, er na fedrai fynychu'r cwrdd mwyach, roedd ei diddordeb yn fawr yng ngwaith yr eglwys.

Gwerthfawrogai ymweliadau gan yr aelodau, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd y bu'n byw yn Erw Hir, ac roedd wrth ei bodd yn croesawu plant yr Ysgol Sul i'r Cartref.

Cynhaliwyd ei hangladd ym Mharc Gwyn ar 15 Rhagfyr. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog gyda chymorth Y Parchedig Rhodri Glyn Thomas. Rhoddwyd ei llwch i orwedd gyda'i diweddar annwyl briod ym mynwent Capel Llwyn-teg, Llannon.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phlant, Dawn, Allan a Barrie a'u teuluoedd

**Beti-Wyn**

## Y DIWEDDAR GWYLFA EVANS

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Gwylfa Evans, Llangynnwr, ac yntau ar fin dathlu'i ben-blwydd yn 91 oed ar ddydd Nadolig. Roedd wedi cadw'n iach ac yn heini serch ei oed mawr. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 1 Rhagfyr 2017.

Cofiwn am Gwylfa fel gŵr serchog a charedig, ac un a chanddo feddwl mawr o'i deulu.

Tystia'r teyrngedau personol a dalwyd iddo gan aelodau'r teulu ar ddydd ei angladd ym Mharc Gwyn ar 11 Rhagfyr iddo fod yn ŵr, yn dad, yn dad-cu a bellach yn hen dad-cu arbennig o gefnogol a doeth ei gynghorion bob amser.

Roedd Gwylfa'n ddyn ymarferol iawn ac medrai droi'i law'n ddigon didrafferth at dipyn o bopeth.

Roedd yn arddwr o fri a phleser oedd gweld ffrwyth ei lafur yn harddu'r tir a amgylchynai'r cartref yn Llangynnwr.

Roedd ganddo gariad mawr at gerddoriaeth a meddai ar lais bas da a chyfoethogwyd sawl côr lleol gan ei bresenoldeb dros y blynyddoedd.

Bu'n gymar triw i Nano dros drigain a mwy o flynyddoedd. Estynnwn ni fel eglwys ein cydymdeimlad dwysaf â hi, ac â'r plant Maria ac Andrew a'u teuluoedd.

Coffa da am Gwylfa.

**Beti-Wyn**

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ionawr | | Chwefror | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Sulwyn Thomas | Adrian Evans | Sulwyn Thomas | Adrian Evans |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Mari Jones | Chwefror | 4 | Non Davies |
| | 14 | | | 11 | |
| | 21 | Margaret Lewis | | 18 | Catrin Jones (Cae Seiri) |
| | 29 | | | 25 | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 7 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons |
| Chwefror | 4 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Ionawr / Chwefror | Janet Davies a Gloria Evans |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | **Elis Jones** | **Chwefror** | **4** | **Dr Huw Michael** |
| | **14** | | | **11** | **Gill Owens** |
| | **21** | **Catrin H Jones** | | **18** | **Elinor W Reynolds** |
| | **29** | **Carys Morgans** | | **25** | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **Eirlys Jones** | **Chwefror** | **Chris Lloyd** |

***GOBEITHIO*** i chi i gyd gael seibiant ac amser da dros y Nadolig!



Gwelwyd nifer o'r Priordy ar y radio neu'r teledu'n ddiweddar. Ar **Radio Cymru** bu Rebecca Hayes yn adolygu'r Papurau Sul ar y rhaglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** a Megan Jones, un o ddisgyblion yr Ysgol Sul yn siarad â Siôn Corn. Bu Beti-Wyn yn cyflwyno **Munud i Feddwl** yn ystod mis Rhagfyr. Fe'i clywyd hefyd ar **Taro'r Post** yn trafod penderfyniad perchennog y gadwyn siopau *The Entertainer* i gau yng Nghaerfyrddin a mannau eraill ar 24 Rhagfyr gan ei bod yn ddydd Sul a hynny er gwaethaf y ffaith ei bod yn Noswyl y Nadolig.

Ar **S4C** wedyn, bu Tudur Dylan Jones yn arwain y **Noson Lawen** a gynhaliwyd yn y Lyric. Ymunodd ei ferch Catrin a'i wyres fach Greta gydag 'Idwal' (Ifan Griffydd) mewn eitem ar y llwyfan. Bu Rhian Mair Evans yn ymateb i'r noson wrth adael y theatr. Un o'r beirniaid yn **Carol yr Ŵyl,** sef cystadleuaeth canu carolau gwreiddiol ar gyfer ysgolion cynradd i ddod o hyd i garol y flwyddyn, oedd Elin Llwyd  Aeth y wobr i Ysgol Gymraeg Aberystwyth y tro hwn am eu carol Noswyl Nadolig. Bu'r Dr Llinos Williams ar **Heno** yn ein cynghori sut i gadw'n iach dros yr Ŵyl  Roedd Mared Owen a Sara Llwyd yn canu yng Nghôr Merched Sir Gâr yn **Carolau Llandudno.** A bu Catrin Davies ar **Bobl y Cwm**.



Gwyddom yn dda am gampau bowlio Gethin ac Aled Edwards dros y blynyddoedd a soniwyd am eu llwyddiant yn y maes hwnnw yn y **Journal** yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod, sef Danny Owens, Awel Tywi, Llangynnwr, Gwen Williams, Tir Ysgawen, Llangynnwr, Gwyneth Griffiths, Heol Bronwydd ac Erin, merch Non a Carwyn Edwards,

Pumsaint. Dymunwn wellhad buan iddynt, a danfonwn ein cofion gorau atynt a'u teuluoedd ac at bawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Braf oedd gweld rhai o blant ein Hysgol Sul sy'n byw yng Nghae Seiri'n arddel yr hen draddoddiad cymdogol o ganu Calennig ar fore cynta'r flwyddyn newydd! Da iawn!




***A DYMUNIADAU DA*** i chi i gyd yn y Flwyddyn Newydd!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

BYW Y BEIBL

BYW Y BEIBL

**DARLLENIADAU**

| Mis | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Mathew 2: 1-12** |
| **Wythnos 2** | **Mathew 3: 13-17** |
| **Wythnos 3** | **Salm 40: 1-11** |
| **Wythnos 4** | **Mathew 4: 12-23** |

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Tudur Dylan Jones, Janet Williams (Plas-y-dderwen) a Meleri Llwyd O' Leary am y lluniau'r mis hwn

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | *Bore*<br>*Hwyr* | Oedfa Deuluol yng ngofal Cana a'n Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **14** | *Bore* | Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog | |
| | **21** | *Bore*<br>*P'nawn*<br><br>*Hwyr* | Dr Hefin Jones<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r Dr Hefin Jones<br>Oedfa dan nawdd Cytûn yng Nghapel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol | |
| | **28** | *Bore* | Ein Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror** | **4** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog | **Cymun** |
| | **11** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **18** | *Bore*<br>*P'nawn* | Alun Lenny<br>Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gydag Alun Lenny | |
| | **25** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 yn y Tabernacl<br>Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriaid y dref am 5.00 yn Eglwys Sant Ioan | <br><br>**Cymun** |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

**✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**
**GD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi yn y Tabernacl am 10**

| **Ionawr** | | | | **Chwefror** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | **14** | **21** | **28** | **4** | **11** | **18** | **25** |
| **-** | **CP** | **✓**<br>**PIP** | **✓** | **✓** | **✓** | **-** | **GD** |

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**



**Nos Iau, 8 Chwefror 2018 – 7 o'r gloch**
**Festri'r Tabernacl**
***yng nghwmni***
**Dr Ioan Mathews**

***Yn ymuno â Chymdeithas y Tair Eglwys, sef y Tabernacl, Talog a Foelcwan***